

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2022 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Kelly Clewett, Ann Davies, Karen Edwards, Pauline Edwards, Gwyneth Ellis, James Elson, Chris Evans, Justine Evans, Bobby Feeley, Gill German, Jon Harland, Elen Heaton, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James, Delyth Jones, Paul Keddie, Diane King, Julie Matthews, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Merfyn Parry, Arwel Roberts (Cadeirydd), Gareth Sandilands, Peter Scott, Rhys Thomas, Andrea Tomlin, Michelle Walker, David Williams, Elfed Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Rheolwr Gwasanaethau AD (LD); Partner Busnes Arweiniol Adnoddau Dynol – Datblygu Sefydliadol (AM); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP); Gweinyddwr Zoom a'r Gweddarlladiad (SJ); a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Jeanette Chamberlain-Jones, Hugh Evans, Geraint Lloyd-Williams, Terry Mendies, Raj Metri a/ac Cheryl Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Blynyddol a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022.

***PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Blynyddol a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022 yn gofnod cywir.*

5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Sesiynau Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Sesiynau Briffio'r Cyngor.*

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff 12 a 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

6 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: LLYWODRAETHU A BUSNES

Hysbysodd Arweinydd y Cyngor a'r Rheolwr Gwasanaethau AD yr aelodau o'r Panel Penodiadau Arbennig a gweithgareddau'r ganolfan asesu a ddefnyddiwyd i werthuso'r ymgeiswyr. Roedd y Panel wedi nodi un ymgeisydd a allai fod yn addas i'w benodi ac a oedd felly wedi'i wahodd i fynychu cyfarfod y Cyngor heddiw.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD** penodi Gary Williams i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes.*

7 PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: ECONOMI A'R AMGYLCHEDD

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor yr eitem hon ac adroddodd fod y Panel Penodiadau Arbennig wedi nodi dau ymgeisydd i'w rhoi ar y rhestr fer a'u gwahodd i fynychu'r Cyngor heddiw.

Rhoddodd y ddau ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau; cafodd y ddau ymgeisydd yr un cwestiynau.

***PENDERFYNWYD** penodi Tony Ward i swydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi.*